

Andrew Cottom
Prif Weithredwr Dros Dro
Pencadlys BILI Powys
Y Plasty
Bronllys
ABERHONDDU
Powys
LD3 0LS

Llinell Uniongyrchol: 02920 928852
Ffacs: 02920 928878
E-bost: peter.higson@wales.gsi.gov.uk

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

23 Rhagfyr 2009

Annwyl Andrew

YMWELIAD URDDAS A PHARCH DIRYBUDD: YSBYTY COFFA RHYFEL SIR FRYCHEINIOG

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am y canlyniadau a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r ymweliad 'Urddas a Pharch' dirybudd a gynhaliwyd ag Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog ar 23 a 24 Hydref 2009, ac i ddiolch i'ch staff am eu cyfraniadau cadarnhaol a defnyddiol.

Cefndir yr Ymweliad

Fel y gwyddoch, o bosib, fe wnaethom ddatgan ein bwriad o gynnal ymweliadau dirybudd o'r fath wrth i ni gyhoeddi ein Rhaglen Tair Blynedd ar gyfer 2009-2012 ym mis Gorffennaf eleni. Mae'r adolygiadau hyn yn canolbwyntio ar y pedwar maes canlynol:

- A oes tystiolaeth fod urddas a pharch yn cael eu hystyried wrth ddarparu gofal a thriniaeth?
- Pa brosesau sydd ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael bwyd o ansawdd cyson a dewis o fwyd sy'n bodloni eu gofynion dietegol?
- Pa mor addas yw'r amgylchedd gofal?
- A yw'r holl wasanaethau ac unigolion priodol (gan gynnwys cleifion a gofalwyr) yn ymwneud â gofal a thriniaeth?

Yn rhan o'r broses adolygu rydym yn cyfweld aelodau staff, cleifion a gofalwyr; yn archwilio cofnodion cleifion ac yn arsylwi'r amgylchedd a'r gofal a'r driniaeth a ddarperir ar adeg ein hymweliad.

Rydym hefyd yn ystyried meysydd polisi a gweithredol eraill a allai effeithio ar ddiogelwch, preifatrwydd ac urddas, gan gynnwys:

- Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA).
- Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant (POCA).
- Lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau.

Bydd y canlyniadau o ymweliadau fel y rhain hefyd yn cael eu defnyddio i gyfrannu at ein hadolygiad o weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru ac i ddilysu hunanasesiadau o'u cymharu â'r Safonau Gofal Iechyd. Yn bwysicaf oll, bydd yr ymweliadau hyn yn darparu sicrwydd gwerthfawr i gleifion a'r cyhoedd ynglŷn ag ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir. Bydd yr holl lythyrau a ysgrifennir at reolwyr yn sgil yr ymweliadau yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

Cynhaliwyd ein hymweliad ag Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog yn ystod cyfnod o 24 awr rhwng dydd Gwener 23 a dydd Sadwrn 24 Hydref. Rhoddodd hyn gyfle i'n hadolygwyr ystyried effaith trefn arferol wardiau a newid sifftiau ar urddas cleifion ac i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant y wardiau yr ymwelwyd â hwy. Canolbwyntiodd ein hymweliad ar ward Crug, yr ysbyty dydd ar gyfer yr henoed bregus eu meddwl (EMI) ac ymweliad arsylwi byr â'r ward Adsefydlu, Bannau.

Ar y cyfan, gwelwyd bod y staff yn garedig, yn gwrtais ac yn dangos parch yn y ffordd yr oeddent yn gofalu am gleifion. Roedd awyrgylch y wardiau yr ymwelwyd â hwy a'r ysbyty yn gyffredinol yn ddymunol, a dywedodd y cleifion y siaradasom â hwy fod y staff yn ofalgar ac yn garedig ac "nad oedd unrhyw beth yn ymddangos yn ormod o drafferth".

Ar hyn o bryd, mae'r gwaith a wneir gan yr Ysbyty Dydd yn canolbwyntio mwy ar yr elfen gymdeithasol nag asesu, er y cawsom ar ddeall bod cynlluniau ar waith i adolygu hyn. Er bod hyn yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion seicolegol a chymdeithasol cleifion ar hyn o bryd, nid yw'n cyflawni ei brif ddiben nac yn effeithio'n ddigonol ar yr anghenion asesu clinigol.

A oes tystiolaeth fod urddas a pharch yn cael eu hystyried wrth ddarparu gofal a thriniaeth?

Gwelsom sawl enghraifft o ofal personol sy'n cynnal urddas. Gwnaed hyn trwy sicrhau yr anogir nifer o wasanaethau y dylid eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer bywyd arferol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys trin gwallt, trin traed, gofal ewinedd a chyfleusterau ar gyfer ymolchi mewn baddon/cawod.

Er nad yw'r chyfleusterau hyn yn uniongyrchol berthnasol i unrhyw anghenion iechyd corfforol penodol a allai fod gan gleifion hŷn, mae'n bwysig bod anghenion seicolegol, ysbrydol a chymdeithasol yn cael eu diwallu gan eu bod yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd gwell yn gyffredinol.

Mae'r cleifion yn defnyddio eu dillad eu hunain sy'n helpu i leihau amgylchedd 'sefydliadol' posibl, er bod yr ysbyty'n darparu rhywfaint o ddillad os oes angen. Er bod yr amgylchedd uniongyrchol wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion clinigol, mae'n galonogol gweld bod y cleifion yn cael eu hannog i drin yr amgylchedd fel eu cynefin ac felly teimlo'n fwy 'cartrefol'. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r cleifion hynny sydd yn yr ysbyty am gyfnod hwy.

Yn gyffredinol, dylid hyrwyddo'r tueddiad hwn o annog cleifion i drin yr amgylchedd fel man lle y maent yn derbyn gofal yn hytrach na chael eu 'trin'.

Meysydd i'w gwella

Prin oedd y dystiolaeth o raglenni gweithgareddau ffurfiol. Mae'n ymddangos bod gweithgareddau'n cael eu cynllunio ar sail *ad hoc*, gan ddibynnu mwy ar yr aelodau staff sydd ar gael a'r cymysgedd o gleifion yn hytrach na chynllun dyddiol penodol o weithgareddau therapiwtig amrywiol.

Mae goblygiadau'r dull hwn o weithio yn bellgyrhaeddol. Ar yr ochr orau, bydd darparu gweithgareddau therapiwtig yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth isel ac felly nid ystyrir bod ysgogi cleifion yn bwysig. Ar ei waethaf, gallai'r staff ystyried ei fod yn 'faich' ac felly rhoi'r argraff nad yw 'gofalu' am gleifion yn cael ei ystyried o ddifrif – yn enwedig o safbwynt gofaluwr a pherthnasau. Gallai hyn yn ei dro beri i bobl deimlo llai o barch tuag at yr ysbyty a lleihau hunan-barch cleifion wrth i ofal gael ei ystyried yn warchodol ac yn swyddogaeth a gyflawnir fel mater o drefn yn unig.

Mae logisteg trefniadau'r Gwasanaeth Cludo Cleifion (PTS) i ddod â chleifion i'r Ysbyty Dydd EMI yn gosod cyfyngiadau sylweddol ar faint o amser sydd ar gael i gleifion (gan gyfyngu'r cyfnod hwn i 11.00 tan 15.30 yn ymarferol).

Nid oedd unrhyw awgrym nad oedd y PTS yn cyflawni'r gofynion a osodwyd arno – ond dim ond yn yr ystyr bod yr holl gleifion a oedd i fod i gyrraedd wedi cyrraedd. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod y PTS yn cymryd cryn amser i gasglu cleifion ac yna eu dychwelyd adref yn awgrymu bod problem o ran adnoddau neu drefnu'r amserlen.

Nid yw'r trefniadau golchi dillad yn ddigonol. Ceir dibyniaeth ar ofalwyr neu berthnasau sy'n golygu bod dillad budron yn cael eu gadael yn y cypyrddau wrth ochr gwelyau tan iddynt gael eu casglu. Mae hyn yn achosi problemau i gleifion nad oes ganddynt ymwelwyr rheolaidd neu berthnasau agos, sy'n golygu bod yn rhaid cysylltu â gweithiwr cymdeithasol i wneud trefniadau eraill.

Nodwyd gennym fod un claf yn golchi ei dillad â llaw ac yn eu gadael i sychu dros y baddon. Er y gellid ystyried bod hyn yn annog hunangynhaliath, mae'n peri problem amlwg o ran rheoli heintiau.

Pa brosesau sydd ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael bwyd o ansawdd cyson a dewis o fwyd sy'n bodloni eu gofynion dietegol?

Anogir bwyta cymunedol mewn ymdrech i hybu ymadweithio cymdeithasol, ond caiff cleifion ddewis bwyta yn eu hystafelloedd os yw hynny'n well ganddynt.

Mae'r ddarpariaeth o fyrbrydau a bwyd y tu allan i oriau arferol yn dda, ac mae byrbrydau a diodydd ar gael yn rheolaidd yn ystod y dydd.

Ceir dewis a rhywfaint o amrywiaeth yn y fwydlen, ond prin yw'r amrywiaeth i gleifion yr Ysbyty Dydd gan fod y fwydlen yn un wythnosol, sefydlog.

Gwelwyd cleifion yn cael eu cynorthwyo'n briodol i fwyta, ac er nad oes trefniant ffurfiol ar gyfer amseroedd prydau bwyd wedi'u diogelu, anogir staff meddygol a staff eraill yr ysbyty i beidio ag ymweld yn ystod amseroedd prydau bwyd. Anogir perthnasau i ymweld ar adegau prydau bwyd er mwyn cynorthwyo os ydynt yn dymuno.

Meysydd i'w gwella

Roedd y dull o asesu a monitro maeth yn anghyson ac yn dameidiog. Er enghraifft, cedwir 'llyfr pwysau' ar wahân i gofnodion cleifion. Er bod cofnodion cleifion yn cynnwys cyfeiriadau at asesiad maeth, nid oedd y rhain wedi'u cyflwyno mewn ffordd gyson ac nid oedd yn eglur pa un a ddilynir un dull o fonitro cynnydd.

Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o'r defnydd o becynnau asesu maeth.

Pa mor addas yw'r amgylchedd gofal?

Mae gan ward Crug ddeg gwely a chymysgedd o gleifion gwrywaidd a benywaidd. Ceir nifer o ystafelloedd sengl a chilfachau pedwar gwely ar gyfer dynion neu fenywod yn unig. Nid oes tŷ bach na chyfleusterau ymolchi *en-suite* yn yr un ohonynt.

Roedd yr amgylchedd cyffredinol yn ymddangos yn lân ond ychydig yn dreuliedig mewn manau. Roedd rhai darnau o gelfi a dodrefn meddal wedi treulio ac angen eu newid.

Roedd diogelwch ar y ward EMI yn ymddangos yn dda. Roedd y drysau mewnol heb eu cloi, gan ganiatáu mynediad rhydd i'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd dydd / byw. Roedd gardd amgaaedig ar gael i'r cleifion hefyd.

Rheolir prif ddrws y ward gyda chlo cyfunol ac mae'r ward yn gweithredu Polisi Drws ar Glo. Rhoddir y cod i gleifion allu gadael y ward ar gais cyn belled ag yr asesir nad oes unrhyw beryglon i'w diogelwch.

Meysydd i'w gwella

Dau doiled yn unig sydd ar y ward, ac mae un o'r rhain yn yr ystafell ymolchi. Ceir un baddon ac un ystafell gawod. Defnyddir yr ystafell gawod i gadw comodau ac felly ni ellir ei defnyddio, oni bai y symudir yr holl offer o'r ystafell. Canfuwyd bod y baddon yn gollwng a bod dillad cleifion yn sychu ar draws y sedd. Nid yw'r toiledau na'r ystafelloedd ymolchi wedi'u neilltuo'n benodol ar gyfer dynion neu fenywod, ond gellir eu cloi. Mae mwy o gyfleusterau ar gael yn yr Ysbyty Dydd ond, ar y cyfan, mae'n ymddangos nad yw'r cyfleusterau'n addas o ran sicrhau preifatrwydd ac urddas. Mae'n rhaid darparu toiledau a chyfleusterau ymolchi un rhyw er mwyn parchu preifatrwydd ac urddas cleifion.

Mae gan bob gwely lenni a ddefnyddir i sicrhau preifatrwydd. Fodd bynnag, mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i sicrhau bod y rhain yn cael eu cau'n dynn pan roddir gofal personol neu driniaeth.

Mae angen i'r staff fod yn fwy ymwybodol y gellir peryglu preifatrwydd os bydd sgysiaid sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol neu feddygol sensitif yn ymwneud â chleifion penodol yn cael eu clywed gan bobl eraill.

Ceir problem o ran diffyg lle i gadw offer ac mae hyn wedi arwain at annibendod annerbyniol, yn enwedig yn yr ystafell ymolchi a'r ystafell gawod ar ward Crug.

Mae siampŵ ac eitemau ymolchi eraill yn cael eu cadw mewn cypyrddau nad ydynt wedi'u cloi yn yr ystafelloedd ymolchi, a gallai hyn fod yn beryglus i gleifion. Gofynnwyd i staff y ward roi sylw i hyn ar unwaith. Dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 2002¹, mae'n rhaid cadw a thrafod cemegau a sylweddau peryglus mewn ffordd sy'n lleihau cymaint â phosib ar y risgiau a berir gan y sylweddau hynny ac sy'n cyfyngu ar y graddau y mae pobl yn agored iddynt. Er ein bod yn cydnabod na fyddai eitemau megis siampŵ a chyflyrwyr gwallt yn cael eu hystyried yn gemegau neu'n sylweddau peryglus o anghenraid, rydym yn teimlo bod perygl y gallai pobl hŷn ddryslud lyncu sylweddau o'r fath, yn enwedig os oes ganddynt arogl ffrwythau.

Ceir eiddo personol mewn rhai ystafelloedd ond, yn gyffredinol, ni welir llawer o eiddo personol y cleifion ar y wardiau. Prin yw'r cyfleusterau sydd ar gael i gadw eiddo cleifion, yn enwedig dillad.

Roedd yr arwyddion yn ddigonol ar gyfer y staff ond byddent yn sicr yn anaddas ar gyfer nifer o gleifion – yn enwedig y rhai hynny â nam ar eu golwg neu gleifion dryslud.

Roedd rhai o'r arwyddion lluniau (megis ar gyfer y tŷ bach) wedi cwmpo ac nid oedd rhai newydd wedi eu gosod yn eu lle.

Roedd tafenni cwynion ar gael ar y Ward Adsefydlu (Bannau) ond nid ar ward Crug.

Rheolir y gwres canolog yn allanol ac roedd y ward yn boeth iawn ar ddiwrnod ein hymweliad. Nid yw'r staff yn gallu addasu'r gwres yn lleol yn unol â'r tymheredd y tu allan. Byddai'n afresymol dweud bod hyn ar ei ben ei hun yn gwneud yr amgylchedd yn anaddas, ond roedd yn sicr yn effeithio ar yr amgylchedd a oedd wedi'i oleuo'n dda ac yn lân fel arall. Cafwyd sawl sylw negyddol gan aelodau'r staff ynglŷn â'r ffaith nad ydynt yn gallu addasu'r tymheredd yn unol â'r tywydd y tu allan.

Mae presenoldeb cath ar ward Crug yn amlwg o fudd emosiynol sylweddol i'r cleifion ond, serch hynny, mae'n cynrychioli ffynhonnell haint neu gyfrwng lledaenu posibl. Nid ystyrir bod cathod yn achosi perygl uchel o haint mewn mannau EMI, cyn belled â'u bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan filfeddyg i gael gwared ar lyngyr a chwain, a'u bod yn cael eu cadw oddi wrth fannau megis ystafelloedd clinigol, golchfeydd ac unrhyw gleifion y gwyddys fod ganddynt haint. Dylid adolygu'r protocolau perthnasol hyn sy'n gysylltiedig â chadw cath yn rheolaidd.

¹ Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002.

A yw'r holl wasanaethau ac unigolion priodol (gan gynnwys cleifion a gofalwyr) yn ymwneud â gofal a thriniaeth?

Mae'r staff o'r farn bod cyfathrebu amlddisgyblaethol yn gadarnhaol iawn - yn enwedig y cyfarfodydd amlddisgyblaethol ffurfiol a gynhelir bob dydd Mercher. Ystyrir bod y gwaith tîm yn yr ysbyty a chydag adrannau allanol yn effeithiol, a bod gweithwyr cymdeithasol, nyrsys ardal a nyrsys seiciatrig cymunedol yn cael eu cynnwys yn dda.

Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth eirioli ar gael yn rhwydd, ond prin oedd y dystiolaeth i ddangos sut y mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio.

Meysydd i'w gwella

Mae'r dystiolaeth mewn cofnodion cleifion i ddangos i ba raddau y mae cleifion a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio gofal yn anghyson. Rydym yn deall bod perthnasau a/neu ofalwyr yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd amlddisgyblaethol ond nid oedd eu cyfraniad at wneud penderfyniadau yn eglur o'r cofnodion.

Nid yw cynllunio ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty wedi'i strwythuro'n gyffredinol ac nid oes cynlluniau rhyddhau eglur ar gael.

Ceir diffyg pwyslais mewn cynllunio gofal o ran anghenion maethol ac ysbrydol a threfniadau domestig, sy'n arwain at ddull llai na chyfannol o ddarparu gofal cyffredinol.

Ni welwyd systemau ffurfiol ar gyfer asesu a chofnodi galluedd a chaniatâd, a nodwyd sawl cofnod gennym o 'fethu â llofnodi' ar daflenni asesu y dylent fod wedi'u cytuno gyda chleifion unigol neu eu gofalwyr yn ddelfrydol. Dywedwyd wrthym fod caniatâd ac esboniadau yn cael eu nodi ar lafar. Mae angen gwella'r dull hwn o weithio ac mae angen i'r staff gael hyfforddiant priodol ar faterion yn ymwneud â chaniatâd a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol fel mater o frys.

Mae llyfrau sain ar gael ond mae diffyg adnoddau eraill i gynorthwyo cleifion â nam synhwyraidd. Mae'n ymddangos bod hyn yn dibynnu ar ddulliau gwaith aelodau staff unigol. Gall hyn beri i gleifion deimlo eu bod wedi'u hynysu ac nad yw'r staff yn ymwybodol o anghenion cleifion nac yn poeni amdanynt.

Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r system dolen sain yn yr ysbyty sy'n golygu ei bod yn bosibl nad oedd rhai cleifion yn elwa o gael gosod eu cymhorthion clyw yn briodol. Mae cyfleusterau Braille a gwybodaeth mewn bras mawr ar gael ar gais, ond nid ydynt wrth law yn gyfleus. Gallai hyn effeithio ar allu cleifion i dderbyn neu ddeall y wybodaeth a roddir iddynt.

Nid yw'r drefn o newid sifftiau yn dilyn unrhyw broses ffurfiol. Mae'r diffyg hwn o ran strwythur yn golygu nad oes unrhyw feysydd pwnc penodol i roi sylw iddynt ac nid oes cofnod y gellir ei archwilio o'r drefn newid sifft gan na wneir unrhyw gofnodion ffurfiol.

Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA).

Systemau, prosesau ac ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant (POCA).

Lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau.

Nid oedd yn ymddangos bod unrhyw broblemau staffio o ran nyrsys ar ward Crug, er bod problem staffio ar y ward Adsefydlu sydd wedi arwain at gau tri gwely yn ddiweddar.

Meysydd i'w gwella

Mae ymwybyddiaeth o brosesau POVA yn wael ac nid yw'r staff o'r farn bod Amddiffyn Plant yn faes y mae angen iddynt fod yn gyfrifol amdano na chymryd camau ynglŷn ag ef. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod plant yn ymweld â'r ward.

Mae bylchau mewn datblygiad staff yn cynnwys:

- Ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n hyfforddiant gorfodol
- Hyfforddiant POVA a POCA
- Monitro gwael o ran presenoldeb ar gyrsiau hyfforddi.

Mae'r trefniadau ar gyfer adolygu datblygiad personol a phroffesiynol yn wan a dywedwyd wrthym na chynhaliwyd unrhyw adolygiadau unigol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mynegodd aelodau staff y wardiau bryderon am rai bylchau tybiedig mewn cymorth meddygol y tu allan i oriau arferol a threfniadau cyflenwi yn ystod gwyliau blynyddol.

Nid oedd pob aelod o staff yn gwisgo bathodyn enw ac roedd hyn yn ei gwneud yn anodd adnabod aelodau staff. Mae bwrdd arddangos yn Ward Bannau sy'n cynnwys enwau aelodau'r staff a llun ohonynt, a byddai'n ddefnyddiol i ward Crug efelychu hyn.

Nid oes archwiliadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) wedi'u cynnal ar gyfer aelodau staff sydd wedi bod yn eu swyddi ers nifer o flynyddoedd. Mae angen adolygu'r system ar gyfer archwiliadau SCT er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gyflwyno cynllun gweithredu yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a nodir yn y llythyr hwn erbyn dydd Gwener, 12 Chwefror 2010.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Tracey Jenkins ar 02920 928854 neu anfon e-bost at tracey.jenkins@wales.gsi.gov.uk.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Vinny Ness yn y Swyddfa Ranbarthol.

Yn gywir

PETER HIGSON
Prif Weithredwr